OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 1963 (Cy.217)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion (Cymru) 2011

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, a wnaed o dan adrannau 29(3), 408, 537, 537A(1) a (2) a 569(4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996, yn gymwys o ran ysgolion yng Nghymru. Mae'r Rheoliadau'n ymwneud â chasglu gwybodaeth am berfformiad ysgolion.

Darpariaethau cyffredinol sydd yn Rhan 1 o'r Rheoliadau.

Mae Rhan 2 yn gosod dyletswyddau ar benaethiaid ysgolion a gynhelir i sicrhau bod gwybodaeth ar gael i gyrff llywodraethu er mwyn eu galluogi i gydymffurfio â'u rhwymedigaethau o dan y Rheoliadau hyn (rheoliad 4).

Mae Rhan 3 yn cynnwys darpariaethau manwl sy'n ymwneud â darparu gwybodaeth i'r awdurdod lleol a Gweinidogion Cymru.

Rhaid i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir ddarparu gwybodaeth i awdurdodau lleol ynghylch canlyniadau asesu'r cyfnod sylfaen, cyfnod allweddol dau a chyfnod allweddol tri (rheoliad 5 ac Atodlen 2).

Rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu gwybodaeth i Weinidogion Cymru ynghylch canlyniadau asesu'r cyfnod sylfaen, cyfnod allweddol dau a chyfnod allweddol tri ar bob disgybl cofrestredig yn y cyfnod sylfaen, cyfnod allweddol dau a chyfnod allweddol tri yn yr ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol (rheoliad 6 ac Atodlen 2).

Rhaid i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a pherchenogion ysgolion arbennig nas cynhelir ac ysgolion annibynnol a chanddynt ddisgyblion 15, 16,

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2011 No. 1963 (W.217)

# EDUCATION, WALES

## The School Performance Information (Wales) Regulations 2011

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations, made under sections 29(3), 408, 537, 537A(1) and (2) and 569(4) and (5) of the Education Act 1996, apply in relation to schools in Wales. The Regulations relate to the collection of information about the performance of schools.

Part 1 of the Regulations comprises general provisions.

Part 2 imposes duties on head teachers of maintained schools to make available information to governing bodies for the purpose of enabling them to comply with their obligations under these Regulations (regulation 4).

Part 3 contains detailed provisions relating to the provision of information to the local authority and the Welsh Ministers.

Governing bodies of maintained schools must provide local authorities with information about the foundation phase, the second key stage and the third key stage assessment results (regulation 5 and Schedule 2).

The local authority must provide the Welsh Ministers with information about the foundation phase, the second key stage and the third key stage assessment results on all registered pupils in the foundation phase, the second key stage and the third key stage at the schools maintained by the local authority (regulation 6 and Schedule 2).

Governing bodies of maintained schools and proprietors of non-maintained special schools and independent schools with pupils aged 15, 16, 17 or 18

17 neu 18 oed ddarparu gwybodaeth benodedig i Weinidogion Cymru am eu canlyniadau (rheoliad 7 ac Atodlen 3).

Rhaid i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a pherchenogion ysgolion annibynnol ac ysgolion arbennig nas cynhelir ddarparu gwybodaeth i'r awdurdod lleol am absenoldebau awdurdodedig ac absenoldebau heb eu hawdurdodi (rheoliad 8).

must provide the Welsh Ministers with specified information about their results (regulation 7 and Schedule 3).

Governing bodies of maintained schools and the proprietors of independent and non-maintained special schools must provide the local authority with information about authorised and unauthorised absences (regulation 8).

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 1963 (Cy.217)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion (Cymru) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *3 Awst 2011* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *8 Awst 2011* |
| *Yn dod i rym* | *1 Medi 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 29(3), 408, 537, 537A(1) a (2) a 569(4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), ac ar ôl ymgynghori â'r personau hynny yr oedd yn ddymunol ymgynghori â hwy ym marn Gweinidogion Cymru yn unol ag adran 408(5) o Ddeddf Addysg 1996, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

(**1**) 1996 p.56. Diwygiwyd adran 29(3) gan Atodlen 30 a pharagraff 67 o Atodlen 31 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31) ac fe'i diwygiwyd ymhellach gan O.S. 2010/1158. Diwygiwyd adran 408 gan baragraff 30 o Atodlen 7 ac Atodlen 8 i Ddeddf Addysg 1997 (p.44), paragraffau 57 a 106 o Atodlen 30 ac Atodlen 31 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 a pharagraff 57 o Atodlen 9 i Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 (p.21), Atodlen 21 o Ddeddf Addysg 2002, Atodlen 12 a Rhan 7 o Atodlen 16 i Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (p.22) a chan O.S. 2010/1158. Diwygiwyd adran 537 gan baragraff 37 o Atodlen 7 i Ddeddf Addysg 1997, paragraffau 57 a 152 o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, paragraff 60 o Atodlen 9 i Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 a chan O.S. 2010/1158. Amnewidiwyd adran 537A gan baragraff 153 o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ac fe'i diwygiwyd ymhellach gan O.S. 2010/1158.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan yr adrannau hyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru o dan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2011 No. 1963 (W.217)

# EDUCATION, WALES

## The School Performance Information (Wales) Regulations 2011

| | |
|---|---|
| *Made* | *3 August 2011* |
| *Laid before the National Assembly for Wales* | *8 August 2011* |
| *Coming into force* | *1 September 2011* |

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 29(3), 408, 537, 537A(1) and (2) and 569(4) and (5) of the Education Act 1996(**1**) and now vested in them(**2**) and after consulting with those persons with whom consultation appeared to the Welsh Ministers to be desirable pursuant to section 408(5) of the Education Act 1996 make the following Regulations:

(**1**) 1996 c.56. Section 29(3) was amended by Schedule 30 and paragraph 67 of Schedule 31 to the School Standards and Framework Act 1998 (c.31) and further amended by S.I. 2010/1158. Section 408 was amended by paragraph 30 of Schedule 7 and Schedule 8 to the Education Act 1997 (c.44), paragraphs 57 and 106 of Schedule 30 and Schedule 31 to the School Standards and Framework Act 1998, paragraph 57 of Schedule 9 to the Learning and Skills Act 2000 (c.21), Schedule 21 of the Education Act 2002, Schedule 12 and Part 7 of Schedule 16 to the Apprenticeships, Skills, Children and Learning Act 2009 (c.22) and by S.I. 2010/1158. Section 537 was amended by paragraph 37 of Schedule 7 to the Education Act 1997, paragraphs 57 and 152 of Schedule 30 to the School Standards and Framework Act 1998, paragraph 60 of Schedule 9 to the Learning and Skills Act 2000 and by S.I. 2010/1158. Section 537A was substituted by paragraph 153 of Schedule 30 to the School Standards and Framework Act 1998 and further amended by S.I. 2010/1158.

(**2**) The functions of the Secretary of State under these sections were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) and then to the Welsh Ministers under paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32).

# RHAN 1

## Cyffredinol

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dirymu**

**1**.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion (Cymru) 2011 a deuant i rym ar 1 Medi 2011.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Mae'r rheoliadau yn Atodlen 1 wedi eu dirymu.

**Dehongli**

**2**.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "absenoldeb heb ei awdurdodi" ("*unauthorised absence*") yw achlysur pan gofnodir disgybl yn absennol heb awdurdod yn unol â Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010(**1**) ac mae "absenoldeb awdurdodedig" ("*authorised absence*") i'w ddehongli'n unol â hynny;

ystyr "asesiadau statudol" ("*statutory assessments*") yw'r cyfryw drefniadau asesu ag a bennir:

(i) yng Ngorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Trefniadau Asesu Diwedd y Cyfnod Sylfaen a Diddymu Trefniadau Asesu'r Cyfnod Allweddol Cyntaf) (Cymru) 2011; a

(ii) gan Weinidogion Cymru mewn gorchymyn a wneir o dan adran 108(3)(c) o Ddeddf 2002 ac mae'r term "lefel" ("*level*") i'w ddehongli'n unol â darpariaethau'r cyfryw orchmynion(**2**);

ystyr "awdurdod" ("*authority*") yw—

(i) mewn perthynas ag ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, yr awdurdod hwnnw; a

(ii) mewn perthynas ag ysgol arbennig nas cynhelir neu ysgol annibynnol, yr awdurdod lleol y mae'r ysgol wedi ei lleoli yn ei ardal;

ystyr "blwyddyn adrodd yr ysgol" ("*reporting school year*") yw'r flwyddyn ysgol yn union o flaen y flwyddyn ysgol y mae'r wybodaeth a roddir i Weinidogion Cymru i'w chyhoeddi ynddi gan Weinidogion Cymru neu, yn ôl y digwydd, gan awdurdodau lleol;

(**1**) O.S. 2010/1154 (Cy.187).

(**2**) Y gorchmynion cyfredol yw Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 2) (Cymru) (O.S. 2004/2915 (Cy.254)) a Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 3) (Cymru) 2005 (O.S. 2005/1394 (Cy.108)).

# PART 1

## General

**Title, commencement, application and revocation**

**1**.—(1) The title of these Regulations is the School Performance Information (Wales) Regulations 2011 and they come into force on 1 September 2011.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

(3) The regulations in Schedule 1 are revoked.

**Interpretation**

**2**.—(1) In these Regulations—

"the 1996 Act" ("*Deddf 1996*") means the Education Act 1996;

"the 2002 Act" ("*Deddf 2002*") means the Education Act 2002(**1**);

"approved relevant qualification" ("*cymhwyster perthnasol a gymeradwywyd*") is a relevant qualification within the meaning of section 30(5) of the Education Act 1997(**2**);

"authority" ("*awdurdod*") means—

(i) in relation to a school maintained by a local authority that authority; and

(ii) in relation to a non-maintained special school or an independent school, the local authority in whose area the school is situated;

"foundation phase" ("*cyfnod sylfaen*") is to be construed in accordance with section 102 of the 2002 Act;

"maintained school" ("*ysgol a gynhelir*") means—

(i) any community, foundation or voluntary school, or

(ii) any community or foundation special school which is not established in a hospital;

but excludes any nursery school;

"non-maintained special school" ("*ysgol arbennig nas cynhelir*") means a special school which is not maintained by an authority;

"qualification number" ("*rhif cymhwyster*") means the unique reference number allocated to

(**1**) 2002 c.32.

(**2**) 1997 c.44. Sub-section (5) of section 30 was substituted by paragraph 15(6) of Schedule 12 to the Apprenticeships, Skills, Children and Learning Act 2009 (c.22).

mae "cyfnod sylfaen" ("*foundation phase*") i'w ddehongli'n unol â "foundation phase" yn adran 102 o Ddeddf 2002;

"cymhwyster perthnasol a gymeradwywyd" ("*approved relevant qualification*") yw cymhwyster o fewn ystyr "relevant qualification" yn adran 30(5) o Ddeddf Addysg 1997(**1**);

ystyr "Deddf 1996" ("*the 1996 Act*") yw Deddf Addysg 1996;

ystyr "Deddf 2002" ("*the 2002 Act*") yw Deddf Addysg 2002(**2**);

ystyr "y gofrestr" ("*the register*") yw'r gofrestr sy'n cael ei chynnal a'i chyhoeddi gan Swyddfa Rheoleiddio Cymwysterau ac Arholiadau yn unol ag adran 148 o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009(**3**);

ystyr "rhif cymhwyster" ("*qualification number*") yw'r rhif cyfeirnod unigryw a ddyrennir i gymwysterau ar y gofrestr i adnabod y cymhwyster hwnnw;

ystyr "rhif unigryw disgybl" ("*unique pupil number*") yw cyfuniad o rifau sydd ynghyd â llythyren neu lythrennau yn cael ei ddyrannu i ddisgybl ac sy'n benodol i'r disgybl hwnnw, drwy ddefnyddio fformiwla a benderfynwyd gan Weinidogion Cymru;

mae "sesiwn ysgol" ("*school session*") i'w ddehongli'n unol â rheoliad 4 o Reoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003(**4**);

ystyr "ysgol a gynhelir" ("*maintained school*") yw—

(i) unrhyw ysgol gymunedol, ysgol sefydledig, neu ysgol wirfoddol, neu

(ii) unrhyw ysgol arbennig gymunedol neu ysgol arbennig sefydledig nas sefydlwyd mewn ysbyty,

ond nid yw'n cynnwys unrhyw ysgol feithrin; ac

ystyr "ysgol arbennig nas cynhelir" ("*non-maintained special school*") yw ysgol arbennig nas cynhelir gan awdurdod.

qualifications on the register to identify that qualification;

"the register" ("*y gofrestr*") means the register maintained and published by the Office of Qualifications and Examinations Regulation pursuant to section 148 of the Apprenticeships, Skills, Children and Learning Act 2009(**1**);

"reporting school year" ("*blwyddyn adrodd yr ysgol*") means the school year immediately preceding the school year in which information provided to the Welsh Ministers is to be published by the Welsh Ministers or, as the case may be, local authorities;

"school session" ("*sesiwn ysgol*") is to be interpreted in accordance with regulation 4 of the Education (School Day and School Year) (Wales) Regulations 2003(**2**);

"statutory assessments" ("*asesiadau statudol*") means such assessment arrangements as are specified:

(i) in the Education (National Curriculum) (End of Foundation Phase Assessment Arrangements and Repeal of the First Key Stage Assessment Arrangements) (Wales) Order 2011; and

(ii) by the Welsh Ministers in an order made under section 108(3)(c) of the 2002 Act and "level" ("*lefel*") is to be construed in accordance with the provisions of such orders(**3**);

"unauthorised absence" ("*absenoldeb heb ei awdurdodi*") means an occasion on which a pupil is recorded as absent without authority pursuant to the Education (Pupil Registration) (Wales) Regulations 2010(**4**) and "authorised absence" ("absenoldeb awdurdodedig") is to be construed accordingly; and

"unique pupil number" ("*rhif unigryw disgybl*") means a combination of numbers which together with a letter or letters is allocated to a pupil and are particular to that pupil, by use of a formula determined by the Welsh Ministers.

---

(**1**) 1997 p.44. Amnewidiwyd is-adran (5) o adran 30 gan baragraff 15(6) o Atodlen 12 i Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (p.22).

(**2**) 2002 p.32.

(**3**) 2009 p.22.

(**4**) O.S. 2003/3231 (Cy. 311).

(**1**) 2009 c.22.

(**2**) S.I. 2003/3231 (W.311).

(**3**) The current orders are the National Curriculum (Key Stage 2 Assessment Arrangements) (Wales) Order (S.I. 2004/2915 (W.254)) and the National Curriculum (Key Stage 3 Assessment Arrangements) (Wales) Order 2005 (S.I. 2005/1394 (W.108)).

(**4**) S.I. 2010/1154 (W.187).

(2) Yn y Rheoliadau hyn, onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall—

(a) mae cyfeiriadau at ddisgyblion o oedran penodol yn gyfeiriadau at ddisgyblion a oedd yn ddisgyblion cofrestredig yn yr ysgol ar y trydydd dydd Iau yn Ionawr ym mlwyddyn adrodd yr ysgol ac a gyrhaeddodd yr oedran hwnnw yn ystod y cyfnod o ddeuddeng mis sy'n dod i ben, naill ai—

(i) ar 31 Awst cyn dechrau blwyddyn adrodd yr ysgol, pan fo blwyddyn adrodd yr ysgol yn cychwyn ar ôl y dyddiad hwnnw, neu

(ii) ar 31 Awst sy'n dod ym mlwyddyn adrodd yr ysgol, pan fo blwyddyn adrodd yr ysgol yn dechrau ar neu cyn y dyddiad hwnnw, ac;

(b) mae cyfeiriadau at gymwysterau perthnasol a gymeradwywyd y rhoddwyd enwau disgyblion yn yr ysgol ar eu cyfer yn cynnwys cymwysterau perthnasol a gymeradwywyd ac y rhoddwyd enwau disgyblion ar eu cyfer ac eithrio yn unol ag adran 402(1) o Ddeddf 1996(**1**); ac

(c) mae cyfeiriadau at gyfnodau allweddol yn gyfeiriadau at y cyfnodau a nodir yn adran 103(1) o Ddeddf 2002.

(3) Pan fo'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol neu'n caniatáu i wybodaeth gael ei throsglwyddo ar ffurf electronig neu ar ffurf y gall peiriant ei darllen, rhaid bodloni'r gofyniad hwnnw drwy drosglwyddo'r wybodaeth drwy gyfrwng gwefan ryngrwyd ddiogel a ddarperir i'r pwrpas hwnnw gan Weinidogion Cymru neu ar eu rhan.

(4) At ddibenion y Rheoliadau hyn mae unrhyw gymhwyster perthnasol a gymeradwywyd ac y rhoddwyd enw disgybl ar ei gyfer yn ystod blwyddyn ysgol flaenorol i'w drin fel rhoi enw disgybl ar gyfer cymhwyster o'r fath yn ystod blwyddyn adrodd yr ysgol.

**Gosod amod ar y dyletswyddau**

**3**. Dim ond i'r graddau bod yr wybodaeth ar gael iddynt mewn da bryd iddi fod yn rhesymol ymarferol iddynt sicrhau bod yr wybodaeth ar gael, yn cael ei darparu neu'n cael ei chyhoeddi cyn yr achlysur olaf erbyn pryd y mae'n ofynnol bod yr wybodaeth ar gael, yn cael ei darparu neu'n cael ei chyhoeddi, yn ôl y digwydd, y mae dyletswyddau cyrff llywodraethu, awdurdodau a pherchenogion i sicrhau bod gwybodaeth ar gael, yn cael ei darparu, neu'n cael ei chyhoeddi yn gymwys.

(**1**) Diwygiwyd adran 402 gan baragraffau 57 a 101 o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31), gan baragraff 45 o Atodlen 21 i Ddeddf Addysg 2002 a chan O.S. 2010/1158.

(2) In these Regulations, except where the context otherwise requires—

(a) references to pupils of a particular age are to pupils who were registered pupils at the school on the third Thursday in January in the reporting school year and who attained that age during the period of twelve months ending on either—

(i) the 31 August preceding the commencement of the reporting school year, where the reporting school year begins after that date, or

(ii) the 31 August which falls within the reporting school year, where the reporting school year begins on or before that date;

(b) references to approved relevant qualifications for which pupils at the school were entered include approved relevant qualifications for which they were entered otherwise than in pursuance of section 402(1) of the 1996 Act(**1**); and

(c) references to key stages are references to the periods set out in section 103(1) of the 2002 Act.

(3) Where these Regulations require or permit information to be transferred in electronic or machine readable form, that requirement must be met by transferring the information through a secure internet website provided for that purpose by or on behalf of the Welsh Ministers.

(4) For the purposes of these Regulations any approved relevant qualification for which a pupil was entered during a previous school year is to be treated as such an entry during the reporting school year.

**Qualification of duties**

**3**. The duties of governing bodies, authorities and proprietors to make available, provide or publish information apply only to the extent that that information is available to them in time for it to be reasonably practicable for them to make available, provide or publish that information before the latest occasion on which that information is required to be made available, provided or published, as the case may be.

(**1**) Section 402 was amended by paragraphs 57 and 101 of Schedule 30 to the School Standards and Framework Act 1998 (c.31), by paragraph 45 of Schedule 21 to the Education Act 2002 and by S.I. 2010/1158.

## RHAN 2

Darparu gwybodaeth i'r corff llywodraethu

**Darparu gwybodaeth gan y pennaeth i'r corff llywodraethu**

**4**. Rhaid i bennaeth pob ysgol a gynhelir sicrhau, bob blwyddyn, bod gwybodaeth ar gael i'r corff llywodraethu ynghylch y materion a grybwyllir yn Atodlenni 2 a 3 er mwyn galluogi'r corff llywodraethu i gydymffurfio â'i rwymedigaethau mewn perthynas â'r materion hynny.

## PART 2

Provision of information to the governing body

**Provision of information by the head teacher to the governing body**

**4**. The head teacher of every maintained school must, each year, make available to the governing body information about the matters mentioned in Schedules 2 and 3 for the purpose of enabling the governing body to comply with their obligations in respect of those matters.

## RHAN 3

Darparu gwybodaeth i Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol

**Darparu canlyniadau asesu'r cyfnod sylfaen a'r cyfnodau allweddol i awdurdodau lleol**

**5**. Rhaid i gorff llywodraethu pob ysgol a gynhelir a chanddi, ym mlwyddyn adrodd yr ysgol, ddisgyblion cofrestredig yn y cyfnod sylfaen, yr ail gyfnod allweddol neu'r trydydd cyfnod allweddol sy'n gymwys ar gyfer asesiadau statudol, ddarparu, bob blwyddyn, i'r awdurdod, yr wybodaeth sy'n ymwneud ag asesiadau statudol ac y cyfeirir ati yn Atodlen 2, ar ffurf electronig neu ar ffurf y gellir ei darllen gan beiriant, os yw hynny'n rhesymol ymarferol.

**Darparu canlyniadau asesu'r cyfnod sylfaen a'r cyfnodau allweddol i Weinidogion Cymru**

**6**. Heb fod yn hwy nag 20 niwrnod ysgol cyn diwedd tymor yr haf, rhaid i'r awdurdod ddarparu, bob blwyddyn, i Weinidogion Cymru, yr wybodaeth sy'n ymwneud â'r asesiadau statudol ac y cyfeirir ati yn Atodlen 2, mewn perthynas â'r holl ysgolion y mae'n eu cynnal ac y mae ganddynt ddisgyblion cofrestredig yn y cyfnod sylfaen, yr ail gyfnod allweddol a'r trydydd cyfnod allweddol ac sy'n gymwys ar gyfer asesiadau statudol ym mlwyddyn adrodd yr ysgol.

**Darparu canlyniadau cymwysterau perthnasol a gymeradwywyd i Weinidogion Cymru**

**7**. Rhaid i gorff llywodraethu pob ysgol a gynhelir a pherchennog pob ysgol arbennig nas cynhelir neu ysgol annibynnol a chanddi ddisgyblion 15, 16, 17 neu 18 oed ddarparu i Weinidogion Cymru y cyfryw fanylion ag y gofynnant amdanynt ynghylch cymwysterau perthnasol a gymeradwywyd ac y rhoddwyd enwau disgyblion sy'n gofrestredig yn yr ysgol ar eu cyfer, a'r cyfryw wybodaeth arall y cyfeirir ati—

## PART 3

Provision of information to the Welsh Ministers and local authorities

**Provision of foundation phase and key stage assessment results to local authorities**

**5**. The governing body of every maintained school which, in the reporting school year, has registered pupils in the foundation phase, the second key stage or third key stage who are eligible for statutory assessments must, each year, provide to the authority the information relating to statutory assessments referred to in Schedule 2, and where reasonably practicable in electronic or machine readable form.

**Provision of foundation phase and key stage assessment results to the Welsh Ministers**

**6**. No later than 20 school days before the end of the summer term the authority must each year provide the Welsh Ministers with the information relating to the statutory assessments referred to in Schedule 2 in relation to all the schools which it maintains which have registered pupils in the foundation phase, the second key stage and the third key stage who are eligible for statutory assessments in the reporting school year.

**Provision of results of approved relevant qualifications to the Welsh Ministers**

**7**. The governing body of every maintained school and the proprietor of every non-maintained special school or independent school with pupils aged 15, 16, 17 or 18 must provide the Welsh Ministers with such particulars as they request relating to approved relevant qualifications for which registered pupils at the school were entered, and such other information as is referred to—

(a) yn achos ysgol sy'n darparu gwybodaeth mewn cysylltiad â disgyblion 15 oed, yn Rhan 1 o Atodlen 3; neu

(b) yn achos ysgol sy'n darparu gwybodaeth mewn cysylltiad â disgyblion 16, 17 neu 18 oed, yn Rhan 2 o Atodlen 3;

pan ddaw cais ysgrifenedig am y cyfryw wybodaeth gan Weinidogion Cymru o fewn y cyfnod a bennir ganddynt yn y cyfryw gais.

**Darparu gwybodaeth i'r awdurdod am absenoldebau awdurdodedig a rhai heb eu hawdurdodi**

**8**. Rhaid i gorff llywodraethu pob ysgol a gynhelir a phob ysgol feithrin a gynhelir a pherchennog pob ysgol arbennig nas cynhelir neu ysgol annibynnol ddarparu i'r awdurdod yr wybodaeth ganlynol am flwyddyn adrodd yr ysgol ar ôl cael cais ysgrifenedig gan yr awdurdod am yr wybodaeth honno o fewn y cyfnod a bennir ganddo yn y cais hwnnw:

(a) cyfanswm nifer y sesiynau ysgol ym mlwyddyn adrodd yr ysgol yr oedd y disgybl wedi ei gofrestru ynddi yn yr ysgol;

(b) cyfanswm nifer y sesiynau hynny yr oedd y disgybl yn bresennol ynddynt ym mlwyddyn adrodd yr ysgol; ac

(c) cyfanswm nifer yr absenoldebau awdurdodedig a'r absenoldebau heb eu hawdurdodi ar gyfer y disgybl.

(a) in the case of a school providing information in respect of pupils aged 15, in Part 1 of Schedule 3; or

(b) in the case of a school providing information in respect of pupils aged 16, 17 or 18, in Part 2 of Schedule 3;

upon receiving a written request from the Welsh Ministers for such information within the period specified by them in such a request.

**Provision of information about authorised and unauthorised absence to the authority**

**8**. The governing body of every maintained school and maintained nursery school and the proprietor of every non-maintained special school or independent school must provide the authority with the following information for the reporting school year upon receiving a written request from the authority for such information within the period specified by it in such a request:

(a) the total number of school sessions in the reporting school year during which the pupil was registered at the school;

(b) the total number of such sessions in the reporting school year attended by the pupil; and

(c) the total number of authorised and unauthorised absences for the pupil.

*Jeff Cuthbert*

Y Dirprwy Weinidog Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

3 Awst 2011

Deputy Minister for Skills, one of the Welsh Ministers

3 August 2011

# ATODLEN 1

Rheoliad 1

## Y RHEOLIADAU A DDIRYMWYD

| *Y Rheoliadau a ddirymwyd* | *Cyfeirnodau* | *Rhychwant y dirymu* |
|---|---|---|
| Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion) (Cymru) 2004 | O.S. 2004/1025(Cy.122) | Y rheoliadau cyfan |
| Rheoliadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 2) (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2004 | O.S. 2004/2914 (Cy.253) | Rheoliad 4 |
| Rheoliadau Trefniadau Asesu y Cwricwlwm Cenedlaethol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2005 | O.S. 2005/1396 (Cy.110) | Rheoliad 4 |
| Gorchymyn Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu'r Awdurdod) 2005 | O.S. 2005/3239 (Cy.244) | Paragraff 12 o Atodlen 2 |
| Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion) (Cymru) (Diwygio) 2007 | O.S. 2007/3564 (Cy.314) | Y rheoliadau cyfan |
| Rheoliadau Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2010 | O.S. 2010/2431 (Cy.209) | Rheoliad 6 |

# SCHEDULE 1

Regulation 1

## REGULATIONS REVOKED

| *Regulations revoked* | *References* | *Extent of revocation* |
|---|---|---|
| The Education (School Performance Information) (Wales) Regulations 2004 | S.I. 2004/1025 (W.122) | The whole regulations |
| The National Curriculum (Key Stage 2 Assessment Arrangements) (Consequential Amendments) (Wales) Regulations 2004 | S.I. 2004/2914 (W.253) | Regulation 4 |
| The National Curriculum Assessment Arrangements (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2005 | S.I. 2005/1396 (W.110) | Regulation 4 |
| The Qualifications, Curriculum and Assessment Authority for Wales (Transfer of Functions to the National Assembly for Wales and Abolition) Order 2005 | S.I. 2005/3239 (W.244) | Paragraph 12 of Schedule 2 |
| The Education (School Performance Information) (Wales) (Amendment) Regulations 2007 | S.I. 2007/3564 (W.314) | The whole regulations |
| The Apprenticeships, Skills, Children and Learning Act 2009 (Consequential Amendments) (Wales) Regulations 2010 | S.I. 2010/2431 (W.209) | Regulation 6 |

# ATODLEN 2

Rheoliad 4

## DARPARU GWYBODAETH I AWDURDODAU LLEOL: CANLYNIADAU'R CYFNOD SYLFAEN A'R CYFNODAU ALLWEDDOL

Mewn cysylltiad â phob disgybl cofrestredig yn y cyfnod sylfaen, cyfnod allweddol dau a chyfnod allweddol tri, canlyniadau asesiadau statudol y disgybl ac, os nad yw rhai neu'r cyfan o'r canlyniadau hynny ar gael, gwybodaeth ynghylch a gafodd y disgybl ei esemptio rhag yr asesiadau o dan adrannau 113 neu 114 o Ddeddf 2002 neu ynghylch a yw canlyniadau asesiadau'r disgybl heb fod ar gael am resymau ac eithrio esemptio'r disgybl o dan adrannau 113 neu 114 o Ddeddf 2002(**1**).

(**1**) Diwygiwyd adran 114(6) gan baragraffau 11 i 13 a 18 o'r Atodlen i Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 (mccc1).

# SCHEDULE 2

Regulation 4

## PROVISION OF INFORMATION TO LOCAL AUTHORITIES: FOUNDATION PHASE AND KEY STAGE RESULTS

In respect of each registered pupil in the foundation phase, second key stage and third key stage, the results of the pupil's statutory assessments and where some or all of those results are not available whether the pupil was exempted from the assessments under sections 113 or 114 of the 2002 Act or whether the results of the pupil's assessments are not available for reasons other than the pupil's exemption under sections 113 or 114 of the 2002 Act(**1**).

(**1**) Section 114(6) was amended by paragraphs 11 to 13 and 18 of the Schedule to the Learning and Skills (Wales) Measure 2009 (Nawm 1).

# ATODLEN 3

Rheoliad 4

## DARPARU GWYBODAETH I WEINIDOGION CYMRU: CYMWYSTERAU PERTHNASOL A GYMERADWYWYD

## RHAN 1

### Disgyblion 15 oed

**1**. Nifer y disgyblion cofrestredig sy'n 15 oed.

**2**. Yn achos pob disgybl o'r fath y cyfeirir ato ym mharagraff 1 ac a roddwyd ei enw ar gyfer un cymhwyster perthnasol a gymeradwywyd neu fwy ym mlwyddyn adrodd yr ysgol neu mewn unrhyw flynyddoedd ysgol cyn y flwyddyn honno, rhyw y disgybl, ei ddyddiad geni a'i gyfenw ac yna'i enw cyntaf, ei enw canol neu ei enwau canol (os yw'n gymwys) ac, os yw'r wybodaeth yn cael ei darparu ar ffurf electronig neu ar ffurf y gellir ei darllen gan beiriant, rhif unigryw disgybl y disgybl.

**3**. Yn achos pob disgybl o'r fath y cyfeirir ato ym mharagraff 2 ac sydd wedi cyflawni, ym mlwyddyn adrodd yr ysgol neu mewn unrhyw flynyddoedd ysgol cyn y flwyddyn honno, unrhyw gymhwyster perthnasol a gymeradwywyd, y manylion canlynol am bob cymhwyster o'r fath a gyflawnwyd—

(a) y corff dyfarnu;

(b) enw'r pwnc;

(c) y math a'r lefel;

(ch) y canlyniad;

(d) y dyddiad dyfarnu; ac

(dd) y rhif cymhwyster.

## RHAN 2

### Disgyblion 16, 17 neu 18 oed

**4**. Nifer y disgyblion cofrestredig sy'n 16, 17 neu'n 18 oed.

**5**. Yn achos pob disgybl o'r fath y cyfeirir ato ym mharagraff 4, yr wybodaeth ganlynol: rhyw y disgybl, ei ddyddiad geni a'i gyfenw ac yna'i enw cyntaf, ei enw canol neu ei enwau canol (os yw'n gymwys) ac, os yw'r wybodaeth yn cael ei darparu ar ffurf electronig neu ar ffurf y gellir ei darllen gan beiriant, rhif unigryw disgybl y disgybl.

**6**. Yn achos pob un disgybl o'r fath y cyfeirir ato ym mharagraff 4 ac sydd wedi cyflawni ym mlwyddyn

# SCHEDULE 3

Regulation 4

## PROVISION OF INFORMATION TO THE WELSH MINISTERS: APPROVED RELEVANT QUALIFICATIONS

## PART 1

### Pupils aged 15

**1**. The number of registered pupils aged 15.

**2**. In the case of each such pupil referred to in paragraph 1 who was entered for one or more approved relevant qualifications during the reporting school year or any of the school years preceding that year the pupil's gender, date of birth and surname followed by the first name, middle name or middle names (if applicable), and where such information is provided in electronic or machine readable form, the pupil's unique pupil number.

**3**. In the case of each such pupil referred to in paragraph 2 who, during the reporting school year or any of the school years preceding that year, achieved any approved relevant qualification, the following details for each such qualification achieved—

(a) the awarding body;

(b) the subject title;

(c) the type and level;

(d) the result;

(e) the date awarded; and

(f) the qualification number.

## PART 2

### Pupils aged 16, 17 or 18

**4**. The number of registered pupils aged 16, 17 or 18.

**5**. In the case of each such pupil referred to in paragraph 4 the following information: the pupil's gender, date of birth and surname followed by the first name, middle name or middle names (if applicable) and, where such information is provided in electronic or machine readable form, the pupil's unique pupil number.

**6**. In the case of each such pupil referred to in paragraph 4 who, during the reporting school year or

adrodd yr ysgol neu mewn unrhyw flynyddoedd ysgol cyn y flwyddyn honno, unrhyw gymhwyster perthnasol a gymeradwywyd, y manylion canlynol am bob cymhwyster o'r fath a gyflawnwyd—

(a) y corff dyfarnu;

(b) enw'r pwnc;

(c) y math a'r lefel;

(ch) y canlyniad;

(d) y dyddiad dyfarnu; ac

(dd) y rhif cymhwyster.

any of the school years preceding that year, achieved any approved relevant qualification, the following details for each such qualification achieved—

(a) the awarding body;

(b) the subject title;

(c) the type and level;

(d) the result;

(e) the date awarded; and

(f) the qualification number.

© Hawlfraint y Goron 2011

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2011

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 1963 (Cy.217)

## ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion (Cymru) 2011

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2011 No. 1963 (W.217)

## EDUCATION, WALES

The School Performance Information (Wales) Regulations 2011

£5.75

W1020/08/11 ON